

UN O'R DORF YN JERWSALEM**Darllen Mathew 21:1–11**

Ac yr oedd y tyrfaoedd ar y blaen iddo a'r rhai o'r tu ôl yn gweiddi: 'Hosanna i Fab Dafydd! Bendigedig yw'r un sy'n dod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf!' Pan ddaeth ef i mewn i Jerwsalem cynhyrfwyd y ddinas drwyddi. Yr oedd pobl yn gofyn, 'Pwy yw hwn?', a'r tyrfaoedd yn ateb, 'Y proffwyd Iesu yw hwn, o Nasareth yng Ngallilea' (Mathew 21:9–11).

Dylech fod wedi gweld y dorf y diwrnod hwnnw!
O'i gwmpas ym mhob man,
yn rhedeg o'i flaen,
ac yn gwthio o'r tu ôl,
miloedd yn tyrru drwy byrth y ddinas,
pawb yn gweiddi am y gorau.
Roedden nhw'n ecstatig,
yn chwifio palmwydd mewn croeso,
ac yn taenu eu dillad ar y ffordd.

'Hosanna!' gwaeddent.
'Hosanna i Fab Dafydd!'
'Bendigedig yw'r Arglwydd!'
A phwy oedd yn eu canol?
Y dyn o'r enw Iesu,
o Galilea yn y gogledd.

Roedd yr enw yn canu cloch,
oherwydd clywais storïau am arwyddion a rhyfeddodau,
am ddyn a iachaodd y cleifion,
bwydo'r tyrfaoedd,
a gostegu'r storm –
proffwyd heb ei debyg, yn ôl rhai.

Ond wir i chi,
welais i ddim byd arbennig ynddo,
dim byd i ddal fy llygaid –
dim ond person cyffredin,
fel chi a fi.

Eto dalient i gymeradwyo,
fel pe baent yn croesawu dyfodiad y Meseia ei hun,
Mab Duw,
brenin buddugoliaethus.
Mae'n dipyn o benbleth i mi,
oherwydd byddwn wedi disgwyl clywed sain yr utgyrn,
pe byddai hynny'n wir,

cerbydau aur a gorymdaith frenhinol –
nid dyn yn marchogaeth ar ebol asyn.
Ond mae'n rhaid bod rhywbeth ynglŷn â'r dyn i achosi'r fath gynnwrf,
rhyw ddawn i ennill calonnau a dal y meddwl.

Dydw i ddim yn siŵr beth,
na sut,
ond rwy'n bwriadu dod i wybod;
mae'n achos chwilfrydedd.
Gormod i'w anwybyddu.

Gweddi:

Arglwydd Iesu Grist,
gwared ni rhag cymysgu gwerthoedd y byd hwn
â'th werthoedd di,
a rhag ystyried dy deyrnas fel un sy'n ei gwthio'i hun ar bobl –
yn pwyso,
yn gorfodi.
Dysg i ni mai ffordd cariad yw dy eiddo di,
ffordd sy'n gwahodd ymateb.
Helpa ni felly i ymwadu â ni ein hunain,
er mwyn darganfod pwy ydym mewn gwirionedd:
i fod yn olaf er mwyn bod yn gyntaf,
i golli ein bywyd er mwyn ei ddarganfod,
i gerdded ffordd frenhinol y groes.
Amen.

Nick Fawcett, addasiad Olaf Davies